Côd Ymarfer ar gyfer

Grymoedd Gosod Pibellau ar Dir Preifat

Mae SWALEC yn enw masnachu o SSE Water Limited, sydd yn aelod o'r SSE Group. Mae Swyddfa Gofrestredig SSE Water Limited yn 55 Vastern Road Reading Berkshire RG1 8BU. Cofrestredig yn Lloegr a Chymru Rhif 6021063. www.swalec.co.uk

Côd Ymarfer ar gyfer Grymoedd Gosod Pibellau ar Dir Preifat

Rhifau Ffôn Defnyddiol

Cwestiynau neu Ymholiadau am eich bil neu'r costau 'rydych yn eu talu
0800 980 1391 Dydd Llun i Ddydd Gwener 8yb i 8yh a Dydd Sadwrn 8yb i 2yh

Ymholiadau am Ansawdd Dŵr, Gollyngiadau neu unrhywbeth arall am ein pibellau
0800 316 2190 365 diwrnod y flwyddyn, 24 awr y diwrnod

Careline – ar gyfer cwsmeriaid ag anghenion arbennig
0800 980 1387 Dydd Llun i Ddydd Gwener 8yb i 8yh a Dydd Sadwrn 8yb i 2yh

Cynnwys

Amdanom Ni

Cyflwyniad

Adran 1 – Cyn i'r gwaith ddechrau

1. Gwneud arolwg a thyllau prawf
2. Ymgynghoriad a rhybudd o'r gwaith
3. Amseru'r gwaith
4. Iawndal
5. Asiantiaid
6. Cofnod o gyflwr y tir
7. Cysylltiadau
8. Lleoliad y pibellau a'r offer

Adran 2 – Yn ystod y gwaith

9. Goruchwyliaeth
10. Mynediad ar gyfer perchnogion a deiliaid
11. Mynediad ar gyfer ni ein hunain
12. Diogelwch eich eiddo a'r ardal gwaith
13. Uwchbridd
14. Coed a gwrychoedd
15. Draeniad tir
16. Cyrsiau dŵr
17. Cyflenwadau dŵr a gwasanaethau eraill
18. Ardaloedd a effeithir gan haentiau
19. Hawliau pysgota a chwaraeon
20. Cyfleusterau ar gyfer gweithwyr
21. Cytundebau preifat
22. Ffrwydron
23. Amddiffyniad Catodig
24. Cefnogaeth dros dro
25. Ffosilau ac eitemau a ddarganfyddir

Adran 3 – Ar ôl gorffen y gwaith

26. Adferiad
27. Gwybodaeth
28. Iawndal
29. Cwynion

Adran 4 – Gwybodaeth arall

30. Cysylltu â ni
31. Taflenni eraill rydym yn eu cynhyrchu

Amdanom Ni

Darparwr dŵr a gwasanaethau carthffosiaeth yw SWALEC. Ein busnes yw cyflenwi dŵr wedi'i drin i gwsmeriaid a chysylltu cwsmeriaid newydd â chyflenwad dŵr. Rydym hefyd yn darparu gwasanaeth trin carthffosiaeth sy'n cynnwys draeniad ar gyfer dŵr wyneb.

Ar y 3ydd o Hydref 2007, cawsom ein penodi gan Ofwat fel cwmni dŵr a charthffosiaeth newydd gyda thrwydded newydd. Mae'r drwydded hon yn golygu ein bod ni'n cymryd lle'r cwmni dŵr a/neu charthffosiaeth sy'n bodoli eisoes mewn ardal ddaearyddol benodol a darparu gwasanaethau dŵr a/neu charthffosiaeth i bob cwsmer yn yr ardal honno.

Rydym yn gweithredu yn ôl yr un safonau uchel â phob cwmni dŵr trwyddedig yn Lloegr a Chymru.

Mae SWALEC yn enw masnachu SSE Water Limited sydd yn aelod o'r SSE Group; rydym yn un o gwmnïau ynni mwyaf y DU. Rydym yn gwmni FTSE 100 ac yn berchen ar rwydwaith dosbarthu trydan mwyaf y DU. Heddiw, mae miliynau o gwsmeriaid yn ymddiried ynddom i ofalu am eu cyflenwad trydan a nwy.

Cyflwyniad

Dyma ein Cod Ymarfer ar rymoedd gosod pibellau ar dir preifat, a baratowyd yn unol ag adran 182 o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 (y Ddeddf). Mae'n nodi arfer da o ran ein grym a'n dyletswyddau wrth osod neu wneud gwaith ar bibellau ar dir preifat, neu wrth wneud gwaith a fydd yn atal heintio'r dŵr yn ein pibellau. Mae hefyd yn egluro beth sy'n gymwys i chi (y perchennog tir a/neu'r deiliad) ei ddisgwyl. Mae'r Ddeddf yn caniatáu, ac mewn rhai achosion yn ei wneud yn ofynnol i ni wneud y gwaith hwn. Mae hefyd yn gosod rhai rheolau i ni i'w dilyn pan fyddwn yn gosod, addasu neu gynnal a chadw pibellau a'u hatodion cysylltiedig. Mae'r Cod Ymarfer hwn wedi'i gymeradwyo gan y Gweinidogion Cymreig.
Mae copïau o'r cod hwn ar gael ar ein gwefan ar www.swalec.co.uk. Byddwn hefyd yn anfon copi atoch yn rhad ac am ddim yn ôl y gofyn. I ofyn am gopi ffoniwch ein tîm gwasanaethau cwsmeriaid ar 0800 980 1391.
Mae'n manylion cyswllt llawn ar gael yn is-adran 30 y daflen hon.
Rydym yn cynhyrchu ystod o daflenni cymorth am ein gwasanaethau. Am ragor o fanylion gweler is-adran 31 y daflen hon os gwelwch yn dda.

Cyn i ni osod pibell rhaid i ni gynllunio llwybr. Rydym yn ystyried nifer o agweddau yn cynnwys:

- uniongyrchedd llwybrau posib
- y gost (o osod a chynnal y bibell)

- faint o iawndal y bydd angen i ni ei dalu o bosib
- effaith aflonyddol y gwaith (i draffig, busnesau ac unigolion)
- ystyriaethau perianyddol yn cynnwys mynediad ar gyfer gwaith adeiladu
- offer tanddaearol ac uwchben sy'n bodoli eisoes
- y dymuniad i gael llif disgyrchiant, a
- osgoi lleoliadau o bwysigrwydd amgylcheddol ac archaeolegol.

O ganlyniad, mae'n bosib y bydd yn rhaid i ni osod pibellau ar dir â pherchnogion neu ddeiliaid preifat. Pan fydd hynny'n digwydd byddwn yn cysylltu â chi a thrwy ddefnyddio arfer gweithio da byddwn yn ceisio lleihau'r difrod. Yn dilyn ein gwaith byddwn yn adfer y tir fel bod ei gyflwr mor agos at y gwreiddiol â phosib. Os nad yw hyn yn ymarferol, caiff iawndal ei dalu am golled neu ddifrod a achosir gan y gwaith.

Byddwn yn cydymffurfio â'r Cod lle bynnag y bo'n bosibl ac yn rhesymol ymarferol. Os na allwn ni wneud hynny, byddwn bob amser yn egluro pam. Byddwn hefyd yn cydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall. Ni fydd y Cod hwn yn effeithio ar unrhyw hawliau neu bwerau eraill y mae'n bosibl i chi neu i ni feddu arnynt.

Mae rhai o ddarpariaethau'r Cod nad ydynt yn gymwys i osod pibellau o fewn safle datblygu. Yn benodol, nid yw is-adrannau 3-6, 13 a'r rhai sy'n perthyn i adferiad yn gymwys yn yr achosion hyn. Yn debyg, mae'n bosib na fydd darpariaethau penodol yn gymwys wrth i ni wneud gwaith ar bibell cyflenwi. Dylech chi nodi hefyd, er nad yw'r Cod yn gymwys wrth weithio ar arolygu a thyllau prawf, byddwn fodd bynnag yn gweithredu yn ôl ei ddarpariaethau lle bo'n gymwys.

Mae'r Cod mewn pedair adran, sy'n disgrifio beth sy'n digwydd:

- cyn i'r gwaith ddechrau;
- yn ystod y gwaith;
- ar ôl gorffen y gwaith;

ac yn darparu gwybodaeth gyfeirio cyffredinol.

Adran 1 – Cyn i'r gwaith ddechrau

1. Gwneud arolwg a thyllau prawf

Unwaith y byddwn yn ymwybodol o'r angen am bibell newydd mae'n bosib y bydd yn rhaid i ni wneud arolwg o lwybrau posibl. Rydym yn gwneud hyn er mwyn canfod y llwybr gorau a sut i osod y bibell. Os oes angen gwneud tyllau prawf neu duriadau arbrofol er mwyn i ni allu penderfynu ar natur y pridd a'r daeareg o dan arwyneb eich tir byddwn yn eich hysbysu. Oni bai ei fod yn achos brys, neu ein bod wedi cytuno ar gyfnod byrrach, byddwn yn rhoi rhybudd o o leiaf saith diwrnod o'n mynediad. Byddwn yn tarfu ar y tir cyn lleied ag y bo modd. Os na allwn ni lenwi unrhyw dyllau yn syth byddwn yn eu diogelu a/neu yn eu ffensio. Gellir hawlio iawndal am unrhyw golledion refeniw oherwydd cyfyngiadau dros dro ar fynediad a defnydd o'r tir.

2. Ymgynghoriad a rhybudd o'r gwaith

Mae'n ofynnol i ni roi hysbysiad ffurfiol i chi o'n bwriad i wneud gwaith ar eich tir. Rhaid i'r hysbysiad fod yn ysgrifenedig ac amgaeir cynllun gydag ef. Bydd y dogfennau hyn yn rhoi gwybodaeth i chi am ble rydym yn bwriadu gosod neu weithio ar y bibell, rhychwant ardal y gwaith a phryd rydym yn bwriadu gwneud y gwaith. Rydym yn eich cynghori i ffeilio'r hysbysiad hwn gyda gweithredoedd eich eiddo, er mwyn i brynwyr eraill yr eiddo yn y dyfodol fod yn ymwybodol o'r bibell a'r cyfarpar. Byddwn hefyd yn eich hysbysu o'n mynediad.

Os yw'r gwaith yn cynnwys gosod pibell newydd byddwn bob amser yn ceisio cysylltu â chi cyn cyhoeddi'r hysbysiad. Oni bai ei fod yn achos brys neu'n ymateb i gais, byddwn yn rhoi o leiaf tri mis o rybudd i chi. Os oes rhaid i ni osod pibell o ganlyniad i gais, byddwn yn rhoi gymaint o rybudd i chi â phosibl, ond fel arfer bydd hyn yn isafswm o 21 diwrnod.

Os yw'r gwaith yn cynnwys addasiadau i bibell bresennol, yna, oni bai ei fod yn achos brys, byddwn yn rhoi o leiaf 42 diwrnod o rybudd. O dan amgylchiadau eraill e.e. os ydym yn dymuno archwilio, gwneud gwaith cynnal a chadw arferol (gan gynnwys glanhau), trwsio neu addasu'r bibell, byddwn yn rhoi rhybudd rhesymol. Bydd hyn fel arfer o leiaf 7 diwrnod (oni bai i chi gytuno ar gyfnod byrrach). Byddwn bob amser yn gwneud pob ymdrech i ymgynghori â chi cyn cyflwyno'r hysbysiad, ond os na allwn wneud hynny am unrhyw reswm byddwn yn ymgynghori â chi ynglŷn â'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud yn ystod cyfnod yr hysbysiad. Yn ystod yr ymgynghoriad hwnnw byddwn yn gofyn i chi am wybodaeth am y canlynol:

- perchnogaeth (a'r ddeiliadaeth, os yn wahanol) y tir – byddai'n gymorth os wnewch chi ddweud wrthym am unrhyw newid perchennog neu ddeiliad
- unrhyw gynigion sydd gennych ar gyfer datblygu'r tir – megis cynigion am adeiladu unrhyw adeileddau parhaol neu ganiatâd cynllunio presennol
- pibellau, ceblau, offer neu strywthurau tanddaearol hysbys

- unrhywbeth y tybiwch y gall effeithio ar amseru ein gwaith gan gynnwys p'un a yw'r tir yn dioddef o lifogydd
- lleoliad tarddiadau, ffynhonnau, carthbyllau, tanciau septig neu ddraeniau tir ac yn enwedig unrhyw system draenio tir dwfn (gweler is-adran 15)
- unrhyw ddeunyddiau, hylifau neu dyfiant peryglus yn yr ardal lle y byddwn yn gweithio neu unrhyw dir heintiedig neu os yw'r tir wedi dioddef o unrhyw glefydau planhigion neu anifeiliaid hysbysadwy
- unrhyw ardal ag anghenion arbennig e.e. Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI), fflora a ffawna a warchodir, ystyriaethau archaeolegol, hawliau tramwy cyhoeddus, coed sydd yn rhwym wrth orchmynion gwarchod neu ardaloedd cadwraeth
- cynlluniau ar gyfer cnydio a stocio
- unrhyw ffactor arall yr ydych yn credu ei fod yn berthnasol/ y bydd yn effeithio ar ein gwaith ac y bydd yn rhaid i ni o bosib dalu iawndal i chi o'i herwydd.

Byddwn yn ystyried yr holl faterion uchod, yn ogystal ag ystyried unrhyw awgrymiadau sydd gennych chi (a/neu berchnogion tir cyfagos a effeithir gan y cynllun) ynglŷn â llwybr y bibell, lleoliad unrhyw offer ategol, amseriad y gwaith, a gwaith adfer tir a draeniau tir, a'u trafod â chi. Erbyn i ni wneud ein penderfyniad terfynol ynglŷn â'r llwybr byddwn wedi ystyried yr anghenion peirianegol a gweithredol a chostau tymor byr a hir y gwaith, yn ogystal ag unrhyw sylwadau neu gynigion a wnaed gennych chi neu eich asiant. Os na fyddwn yn gallu bodloni unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau sydd gennych erbyn y cyfnod hwn byddwn yn egluro ein penderfyniad terfynol i chi yn ysgrifenedig, os ydych yn gofyn i ni wneud hynny.

Mae'r cyfnod o rybudd yn caniatáu amser ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw wrthwynebiadau cyn i'r gwaith ddechrau. Erbyn diwedd y cyfnod hwn, rydym yn gobeithio y bydd unrhyw faterion wedi'u cytuno. Fodd bynnag, os na fyddwch yn rhoi caniatâd i ni i gael mynediad i'ch tir yn unol â'r hysbysiad a roddwyd i chi, rydym yn gallu gwneud cais i Ynad am warant i'n galluogi i gael mynediad.

Unwaith i ni ddechrau'r gwaith byddwn yn cadw mor agos â phosib at y llwybr a hysbyswyd. Os byddwn yn darganfod na allwn wneud hynny, byddwn yn ymgynghori â chi. Os byddwn yn gweld bod angen i ni wneud newidiadau sylweddol ac os na fyddwch yn gallu cytuno arnynt â ni, byddwn yn cyflwyno hysbysiad o'r newydd.

Os na fydd y gwaith yn dechrau ar y dyddiad arfaethedig neu ychydig wedi'r dyddiad hwnnw, byddwn yn eich hysbysu o'r amseriad diwygiedig. Unwaith y caiff y dyddiad dechrau arfaethedig ei gadarnhau, dylem roi rhyw syniad i chi o ba mor hir y bydd y gwaith yn parhau a hefyd o hyd disgwyliedig unrhyw waith adfer. Unwaith y caiff hysbysiad statudol ei gyflwyno ni ddylech wneud unrhyw beth ar y tir dan sylw a allai ein rhwystro neu ein hatal rhag gweithredu ein hawliau statudol ond dylech barhau â'ch gwaith amaethyddol arferol hyd at amser y mynediad. Os nad ydych yn sicr, cysylltwch â ni am gyngor ac eglurhad.

3. Amseru'r gwaith

Gan roi ystyriaeth i gyfyngiadau peirianegol, gweithredol ac arall, byddwn yn gwneud y gwaith o fewn yr amser a fydd yn achosi y difrod lleiaf i'r tir.

4. Iawndal

Os byddwn yn achosi difrod parhaol i werth eich tir o ganlyniad i bresenoldeb ein pibellau, neu os bydd y gwaith yn achosi unrhyw golledion neu aflonyddu dros dro, mae'n bosib y byddwch yn gymwys ar gyfer derbyn iawndal gennym ni (gweler is-adran 28).

5. Asiantau

Mewn rhai amgylchiadau efallai y byddwch yn teimlo ei fod yn briodol i benodi asiant, e.e. tirfesurydd sydd â phrofiad o'r math hwn o waith, i weithredu ar eich rhan gan eich cynghori ar y gwaith, gwarchod eich buddiannau ac asesu a chytuno ar eich cais am iawndal. Os bydd y gwaith yn cynnwys gosod pibellau derbyniem y dylech wneud felly. Os byddwch yn gwneud felly, byddwn yn talu cost resymol ffi'r asiant ar ôl i'r cais gael ei ddatrys. Caiff yr uchafswm y gellir ei dalu ei seilio ar raddfa safonol o ffïoedd proffesiynol, a elwir yn raddfa Ryde. Os bydd arnoch eisiau rhagor o wybodaeth am hyn dylech ofyn i'ch asiant. Ni fyddwn fel arfer yn talu costau cyfreithiol oni bai i ni ofyn i chi am ddogfen hawddfraint swyddogol sy'n gofyn am waith ychwanegol.

6. Cofnod o gyflwr y tir

Byddwn yn llunio rhaglen lawn o gyflwr ardal y gwaith, gan gynnwys unrhyw adeiladau cyfagos, unrhyw fynedfeydd a lleoedd caeëdig mewn perthynas â'r cynllun arfaethedig. Gall hyn gynnwys nodiadau ysgrifenedig, ffotograffau, neu fideo â sylwebaeth lafar. Caiff copi ei anfon at eich asiant cyn i'r cynllun ddechrau (os na fydd gennych asiant, atoch chi). Os ydym wedi hepgor unrhyw beth, dywedwch wrthym. Pwrpas y cofnod hwn yw eich helpu chi a ninnau i sicrhau ein bod wedi adfer y tir cyn belled ag y bo modd i'w gyflwr cyn inni ddechrau gweithio (oni bai eich bod wedi gofyn inni ystyried cynigion gwahanol), a bod unrhyw adeiladau yn aros yn yr un cyflwr.

7. Enwau Cyswllt

Cyn i'r gwaith ddechrau byddwn yn rhoi enw, cyfeiriad gweithle a rhif ffôn y person a fydd yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith i chi. Fel arfer, bydd ef/hi ar gael yn ystod oriau gwaith. Byddwn hefyd yn rhoi rhif ffôn brys i chi i'w ddefnyddio y tu allan i oriau gwaith arferol neu os nad yw'r person cyswllt arferol ar gael.

8. Lleoliad y pibellau a'r cyfarpar

Fel arfer caiff ein pibellau eu gosod o dan y ddaear. Mae'n well gennym ni eu gosod ag isafswm gorchudd o 900mm i goron y bibell gan fod hyn yn eu gwarchod rhag rhew ac yn eu hatal rhag ymyrryd ag unrhyw waith amaethyddol. O bryd i'w gilydd ceir problemau peirianegol neu rwystrau megis allfrigiadau creigiog a fydd yn rhwystro hyn. Os bydd hyn yn digwydd byddwn yn eich hysbysu o'r safle a'r dyfnder terfynol. Mae'n bosib y byddwn, oni bai y byddwn yn cytuno â chi fel arall, yn gosod pyst marcio parhaol wrth ffiniau caeau i ddangos lleoliad y pibellau a'r siambrau. O bryd i'w gilydd ni fydd modd osgoi lleoliadau eraill. Os oes gennych ddraenio tir dwfn dylech ein hysbysu o hyn cyn i ni ddechrau ar y gwaith (gweler is-adran 15).

Yn gyffredinol, caiff ein pibellau a'u hatodion i gyd eu gosod o dan y ddaear. Fodd bynnag, lle bydd angen i ni osod twll daear neu atodyn arall a fydd wedi ei godi neu ar lefel y ddaear, byddwn yn ceisio ei osod mewn safle fydd yn achosi'r ymyrraeth leiaf â defnydd presennol neu yn y dyfodol. Am resymau peirianyddol, bydd angen i ni osod tyllau daear â phellter cyson rhyngddynt, lle bydd carthffos yn newid cyfeiriad neu ddyfnder. Mae'n bosib y bydd angen i ni hefyd osod falfiau aer ar fannau uchel, a falfiau golchi allan ar bwyntiau isel. Lle y bydd angen i ni osod atodyn ar y ddaear neu uwchben lefel y ddaear byddwn bob amser yn trafod hyn gyda chi yn gyntaf. Os bydd angen cael twll archwilio yn eich gardd, byddwn bob amser yn trafod ei leoliad gyda chi, ac os yn bosibl byddwn yn rhoi dewis i chi o'i leoliad terfynol o fewn eich gardd.

Adran 2 – Yn ystod y gwaith

9. Goruchwyliaeth

Byddwn yn sicrhau y caiff unrhyw un sy'n gweithio i ni ar eich tir ei oruchwylio'n gywir a'u bod yn ymwybodol na ddylent grwydro y tu hwnt i'r ardal waith. Os ydych wedi dweud wrth y person cyswllt sydd wedi'i enwi am unrhyw beth y mae angen rhoi sylw arbennig iddo, bydd ef/hi yn sicrhau y bydd y gweithwyr priodol yn ymwybodol ohono.
Heblaw am achosion brys, byddwn yn eich hysbysu ymlaen llaw os byddwn yn gweithio yn agos at eiddo preswyl yn ystod gwyliau banc, ar benwythnosau neu rhwng 7.30pm a 7.30am.

10. Mynediad i berchnogion a deiliaid

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i chi gael mynediad i'ch eiddo. O fewn rheswm, byddwn yn rhoi mynediad i chi gyda stoc neu gerbydau ar draws y safle gwaith. Os bydd lleoliad y safle gwaith yn atal mynediad i ran o'ch eiddo byddwn yn trafod hyn â chi cyn i ni ddechrau ar y gwaith. Lle bo'n

briodol, byddwn yn darparu croesfannau i gerddwyr, giatiau, grisiau neu gamfeydd dros dro a thrafod eu lleoliad â chi.
Byddwn yn ceisio cadw mynedfeydd presennol ar agor i ardaloedd a dorrwyd ymaith gan y gwaith oni bai ei bod yn fwy priodol i ddarparu ffordd arall. Os defnyddir mynedfa gyffredin gennym ni a gennych chithau byddwn yn ymdrechu i gadw'r fynedfa honno mor glir â phosibl rhag llaid a llwch a fydd yn deillio o'n gwaith. Byddwn yn sicrhau yr ymyrraeth leiaf bosibl ag unrhyw fynedfa bresennol ar gyfer cerbydau brys.

11. Mynediad i ni ein hunain

Byddwn fel arfer yn cael mynediad i'n gwaith o'r briffordd gyhoeddus neu drwy'r safle gwaith. Fodd bynnag, os oes rhaid cael mynediad trwy unrhyw lwybr arall byddwn (oni bai mewn achosion brys) yn ymgynghori â chi gyntaf gan gynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol yn yr hysbysiad.

Ni fyddwn yn adeiladu unrhyw giatiau, grisiau neu gamfeydd parhaol ar y ffin rhwng eich tir a phriffordd neu lwybr cyhoeddus heb eich caniatâd, neu rhwng eich tir a thir cymydog heb ganiatâd y ddau berchennog tir. Byddwn yn cynnal hawliau mynediad cyhoeddus.

12. Diogelwch eich eiddo a'r ardal gwaith

Cyn i ni ddechrau gweithio byddwn yn siarad â chi ynglŷn ag a oes rhaid gosod ffensys o amgylch y safle gwaith. Os yw'r safle gwaith yn ffinio â thir lle caiff da byw eu cadw, byddwn yn codi ffens addas ar gyfer atal anifeiliaid. O dan yr amgylchiadau hyn byddwn yn sicrhau y caiff y ffens atal anifeiliaid ei chynnal drwy gydol y cyfnod gwaith (a'r gwaith adfer) a byddwn yn codi pyst tynnu ar fannau lle bydd ein ffensys ni yn cwrdd â ffensys sydd yno eisoes, gan sicrhau y caiff y ddwy ffens eu tynnu a'u clymu'n dynn wrth y pyst. Os bydd da byw yn crwydro drwy'r safle gwaith o ganlyniad i'n gweithredoedd neu ein diffygion ni y gellir eu profi, byddwn yn ystyried rhoi iawndal i geisiadau am golled neu ddifrod. Am resymau diogelwch ni fydd mynediad gennych i'r safle gwaith. Fodd bynnag, byddwn yn sicrhau, os bydd rhaid, y gallwch gael mynediad ar draws y safle gwaith ac na chaiff lefel bresennol o ddiogelwch eich eiddo ei lleihau yn ystod y gwaith a'r gwaith adfer.

13. Uwchbridd

Byddwn yn ceisio gwarchod strwythur y pridd. Pan gaiff yr uwchbridd ei dynnu oddi ar y tir byddwn yn ei storio ar wahân i'r deunyddiau eraill a gloddiwyd. Ni fyddwn yn ei gywasgu â pheiriannau. Pan fydd y gwaith ar ben caiff digon o isbridd ei ddarparu fel paratoad cyn gosod yr uwchbridd yn ei ôl. Caiff y deunydd a gloddiwyd ei osod yn ôl, cyn belled ag y bo modd i'w gyflwr cyn dechrau ar y gwaith, ac yn benodol caiff yr uwchbridd ei adnewyddu i'w ddyfnder gwreiddiol. Ni chaiff unrhyw gerrig mawrion a gloddiwyd yn ystod y gwaith eu gadael ar yr wyneb. Os, am unrhyw reswm, na fyddwn yn gallu

dychwelyd yr un uwchbridd a symudwyd o'ch tir, caiff pridd, oni bai eich bod yn cytuno fel arall, o natur, strwythur ag ansawdd tebyg ei roi yn ei le.

14. Coed a gwrychoedd

Lle bynnag y bo modd byddwn yn ceisio osgoi torri neu docio unrhyw goed aeddfed, ond os na ellir osgoi hyn byddwn yn ymgynghori â chi gyntaf. Os yw'r coed yn rhwym wrth orchymyn gwarchod neu'r gwrychoedd yn rhwym wrth ddarpariaethau y Rheoliadau Gwrychoedd 1997, neu mewn ardal gadwraeth, byddwn hefyd yn ymgynghori â'r awdurdod priodol gan
lynu wrth ei amodau. Os ydym wedi torri unrhyw goed aeddfed, eich eiddo chi fyddant o hyd.
Os dymunwch, gallwn eu gwaredu yn unol ag unrhyw ofynion rhesymol.

15. Draenio'r tir

Os oes gennych unrhyw gofnodion o ddraenio tir presennol, dylech eu rhoi i ni ar y cyfle cyntaf posibl. Byddwn wedyn yn trafod â chi y gwaith o adfer unrhyw system draenio tir a effeithir gan y gwaith, oherwydd mewn rhai amgylchiadau gall hyn olygu gwneud gwaith rhagarweiniol cyn dechrau gosod pibellau. Os cawn ein hysbysu o system draenio tir helaeth, mae'n bosib y byddwn yn cyflogi ymgynghorydd draenio tir cyn dechrau ar y gwaith er mwyn llunio cynllun adfer.
Os byddwn yn darganfod system draenio tir yn ystod y gwaith nad oeddech wedi dweud wrthym amdani, byddwn yn sôn wrthych chi. Os byddwn yn amharu â hi, neu ag unrhyw
system draenio tir arall y sonioch wrthym amdani gwnawn ein gorau i'w hadfer neu i'w
hadnewyddu i'r un safon cyn i'r gwaith ddechrau. Byddwn, lle bydd yn ymarferol, yn gosod ein pibell o dan y system draenio tir. Byddwn yn dweud wrthych pryd y byddwn yn gwneud
y gwaith adfer a byddwn yn rhoi cyfle i chi archwilio'r safle.
Byddwn yn gwneud cofnod (a all gynnwys ffotograffau) o unrhyw ddraeniau tir yr amharwyd
â hwy a'r gwaith adnewyddu/ailgysylltu a wnaed. Os byddwch yn dymuno copi o hyn, gadewch i ni wybod os gwelwch yn dda. Os bydd angen i ni adeiladu draeniau tir mewn lleoliadau nad oeddent yn bodoli cynt byddwn yn trafod hyn â chi gan roi cyfle i chi archwilio'r safle. Byddwn hefyd yn rhoi cofnod i chi o'r gwaith rhagofn y byddwch yn dymuno ffeilio'r copi gyda'ch gweithredoedd.

16. Dyfrffosydd

Yn y man lle bydd ein pibell yn croesi o dan ddyfrffos caiff ei gosod yn unol â gofynion Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Byrddau Draenio Mewnol. Yn absenoldeb gofynion o'r fath gosodir pen uchaf y bibell o leiaf 300mm o dan waelod gwreiddiol y ddyfrffos a gliriwyd a chaiff ei gorchuddio â choncrid.
Os bydd ein gwaith yn effeithio ar unrhyw ddyfrffos byddwn yn trafod ein cynigion â chi, gan sicrhau ei bod yn parhau mewn cyflwr yr un mor effeithiol ar gyfer draenio tir ar ôl cwblhau'r gwaith ag yr oedd cyn i'r gwaith ddechrau.

17. Cyflenwadau dŵr a gwasanaethau eraill

Os byddwn yn ymyrryd â neu yn difrodi unrhyw gyflenwadau dŵr neu wasanaethau eraill yn y safle gwaith ar ddamwain, byddwn yn atgyweirio'r difrod, neu'n darparu dewis amgen digonol cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol. Byddwn hefyd yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau na fydd ein gwaith yn llygru unrhyw gyflenwadau dŵr neu ddyfrffosydd. Os yw'n ymddangos bod posibilrwydd o ymyrraeth â chyflenwadau dŵr preifat, megis ffynhonnau neu darddiadau, byddwn yn trefnu i dalu am y gost o ddadansoddi samplau i ddyfarnu'r ansawdd. Bydd y lefelau o ffynhonnau a llifiadau tarddiadau hefyd yn cael eu cofnodi a'u cytuno cyn ac ar ôl y gwaith cyhyd â'ch bod wedi tynnu ein sylw at yr angen hwnnw mewn da bryd. Symudir cafnau, safbibellau neu gyflenwadau maes o fewn y safle gwaith i leoliad newydd dros dro neu barhaol os cytunwyd ar hynny.

18. Ardaloedd a effeithir gan glefyd

Os byddwch yn ein hysbysu bod yr ardal y mae'n rhaid i ni weithio ynddi wedi'i heintio gan glefyd a gydnabyddir yn unol â Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981, e.e clwy'r traed a'r genau, byddwn yn dilyn gofynion Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA). Os bydd yn rhaid inni gael mynediad ar frys byddwn yn cymryd pob cam diogelu angenrheidiol. Os bydd DEFRA wedi gosod gofynion er mwyn osgoi lledaenu plâu a chlefydau pridd byddwn, wrth gwrs, yn cydymffurfio â'r rhain.

19. Hawliau pysgota a chwaraeon

Ni chaniateir i'n staff neu ein hasiantau gario drylliau ar y safle gwaith. Ni fyddwn yn dod ag anifeiliaid ar y safle (ag eithrio o bosib cŵn gwarchod, yn amodol ar Ddeddf Cŵn Gwarchod 1975).
Os oes hawliau pysgota neu chwaraeon wrth ymyl y safle gwaith byddwn yn ymdrechu o fewn rheswm i sicrhau y bydd ein gwaith yn amharu cyn lleied â phosib ar eu mwynhad.

20. Cyfleusterau gweithwyr

Os byddwn yn cludo cytiau neu garafanau i'r safle gwaith ar eich tir ni chânt, ac eithrio pan fo perygl i ddiogelwch, eu defnyddio fel llety dros nos heb eich caniatâd. Byddwn yn darparu cyfarpar glanweithiol a lles er cyfleustra ein gweithwyr.

21. Cytundebau preifat

Os byddwch yn dod i gytundeb uniongyrchol â'n contractwyr dylech nodi na fyddwn yn gyfrifol am unrhyw ganlyniadau nac yn ymyrryd ag unrhyw gytundeb rhyngoch chi a'r contractwr.

22. Ffrwydron

Byddwn yn eich hysbysu os bydd yn rhaid inni storio neu ddefnyddio ffrwydron gan ddweud wrthych pryd y gellir disgwyl y ffrwydriadau. Ni fyddwn yn defnyddio ffrwydron yn ystod y penwythnos, gwyliau banc na rhwng 7.30pm a 7.30am oni bai ei fod yn hanfodol ac yn annhebygol o achosi unrhyw aflonyddwch sylweddol.

23. Gwarchod cathodig

Os byddwn yn darparu diogelwch cathodig am unrhyw ran o'n cyfarpar, byddwn hefyd yn cymryd y camau, lle bo hynny'n briodol, i ddiogelu adeiladau a strwythurau yn agos i'n gwaith.

24. Cymorth dros dro

Os bydd cynnal y gwaith yn golygu bod angen ategwaith neu gymorth ar unrhyw un o'ch adeiladau, strwythurau neu gyfarpar, byddwn yn cysylltu â chi. Byddwn wedyn yn darparu'r diogelwch angenrheidiol a chymorth fel y bo angen.

25. Ffosilau ac eitemau a ddarganfuwyd

Os byddwn yn darganfod unrhyw ddarnau arian, ffosilau neu eitemau eraill yn ystod ein gwaith byddwn yn eich hysbysu chi a'r corff archaeolegol priodol. Ni fyddwn yn eu cadw nac yn eu hawlio. Gan ein bod yn rhwym yn ôl y gyfraith i warchod a chadw gwrthrychau sydd o ddiddordeb archaeolegol, gallwn gyflogi neu ofyn am archeolegwr i archwilio'r gwaith wrth iddo ddigwydd. Byddwn, fodd bynnag, yn trafod hyn â chi'n gyntaf.

Adran 3 - Ar ôl y gwaith

26. Gwaith Adfer

Wrth wneud ein gwaith byddwn yn ceisio gwneud cyn lleied o ddifrod â phosibl. Hwyrach y bydd difrod dros dro megis tynnu uwchbridd yn digwydd er mwyn cadw arfer gweithio a gwaith adfer da. Wedi i'r gwaith gael ei gwblhau byddwn yn adfer yr ardal y buom yn gweithio ynddi mor agos â phosib i'w chyflwr gwreiddiol. Byddwn yn talu iawndal os oes unrhyw dibrisiant yng ngwerth y tir o ganlyniad i'n gwaith.

Byddwn yn symud yr holl offer a chyfarpar ac unrhyw halogyddion a gludwyd i'r safle, a chludo ymaith unrhyw ddeunydd dros ben a gloddiwyd oni bai i chi ofyn i ni beidio â gwneud hynny, a'n bod yn gallu cydymffurfio â chais o'r fath yn ôl y gyfraith. Caiff y safle ei adael yn lân ac yn daclus. Cyn i ni drosglwyddo'r safle gwaith yn ôl i chi byddwn yn trefnu archwiliad ar y cyd er mwyn sicrhau bodlonrwydd.

Os byddwn wedi difrodi neu symud unrhyw ffens, llethr neu wal byddwn yn eu hatgyweirio neu yn rhoi un arall yn eu lle, fel sy'n briodol. Os byddwn wedi difrodi perth byddwn yn ei hailblannu â'r rhywogaeth briodol a chodi ffens amddiffynnol ddiogel er mwyn caniatáu iddo dyfu. Fel arall byddwn yn talu iawndal.

Os bydd y gwaith mewn gardd gwnawn ein gorau i sicrhau y bydd yr ardd yn edrych yr un peth â'i chyflwr gwreiddiol. Os oes rhaid, byddwn yn cyflogi garddluniwr trwyddedig i wneud y gwaith adfer. Os na fydd hyn yn ymarferol, neu os y dymunwch, gallwn ddod i gytundeb ynglŷn â iawndal i'ch galluogi i wneud y gwaith eich hun.

Os digwydd na chaiff system draenio tir ei hadfer yn iawn gallwn geisio cyngor arbenigwr draenio tir annibynnol. Fel arall gellid talu iawndal.

27. Gwybodaeth

Byddwn yn eich hysbysu yn ysgrifenedig o safle a dyfnder y bibell a osodwyd (os yn llai na 900mm) a chyfran y tir y mae angen ei warchod. Rydym yn eich cynghori i gadw'r rhybudd hwn gyda gweithredoedd eich eiddo. Caiff lled yr ardal ei gadw i'r isafswm isaf posibl a bydd yn ddigonol i ni gael mynediad a gweithio ar y bibell yn unig os oes gofyn am hynny. Er mwyn osgoi difrod i'r bibell ac er mwyn caniatáu mynediad i ni byddwn yn rhoi gwybodaeth i chi am unrhyw weithgareddau na ddylid eu gweithredu yn yr ardal honno heb ein caniatâd penodol ni. Bydd hyn yn cynnwys plannu mathau arbennig o goed neu godi adeiladau, ond ni fydd yn rhwystro gwaith amaethyddol arferol.

28. Iawndal

Gallwch fod yn gymwys i dderbyn iawndal os ydym wedi achosi colled barhaol yng ngwerth eich tir o ganlyniad i bresenoldeb ein pibellau. Os ydych wedi dioddef colledion neu aflonyddwch dros dro, mae'n bosib y byddwch

yn gymwys i dderbyn iawndal hefyd, neu os byddwch wedi dioddef difrod i'ch eiddo nad oeddem wedi gallu ei unioni. Dylech nodi y caiff iawndal aflonyddwch ei dalu yn unig am gostau sy'n deillio'n uniongyrchol ac yn

anorfod o ganlyniad i'n gwaith. Os byddwch yn profi aflonyddwch sylweddol, dylech hysbysu'ch enw cyswllt ar y pryd gan adael iddo wybod os byddwch yn debygol o orfod talu costau ychwanegol. Er eich budd eich hun dylech gadw dyddiadur o ddigwyddiadau. Os ydych wedi penodi asiant (gweler is-adran 5) bydd yr asiant yn paratoi ac yn trafod eich cais ar eich rhan. Byddwn yn trin eich cais yn gyfrinachol.
Os byddwch chi neu eich asiant yn gofyn i ni yn ysgrifenedig, byddwn yn talu blaenswm o 90% o'n hasesiad o'ch colled o fewn tri mis i dderbyn eich cais cyfrifedig ynghyd â thystiolaeth o'ch hawl. Gellir talu llog ar eich cais. Gall eich asiant eich cynghori ynglŷn â hyn.
Os na ellir cytuno ar lefel yr iawndal ar ôl i chi drafod â ni gall y mater gael ei gyfeirio at y Tribiwnlys Tiroedd neu gallwn gytuno ar ddull amgen o ddatrys anghydfod annibynnol . Fodd bynnag, ni fyddwn yn talu ffïoedd eich asiant i baratoi eich achos. Y Tribiwnlys fydd yn penderfynu a ddylid dyfarnu costau a sut.
Os dymunwch ddatblygu'r tir yn y dyfodol mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar eich cyfer i ofyn i ni newid neu symud y bibell ar eich traul eich hun. Os nad yw'r cais yn un afresymol
mae'n ddyletswydd arnom i gydymffurfio.

29. Cwynion

Pan fyddwn yn gweithio ar eich tir ein nod yw achosi cyn lleied o anghyfleuster ac aflonyddwch â phosibl. Rydym yn disgwyl y bydd ein gweithwyr a'n contractwyr yn gwrtais, yn ystyrlon ac yn gymwynasgar. Os bydd gennych broblem dylech gysylltu â'r enw cyswllt neu gallwch gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt yn is-adran 30:

Os na fyddwch yn gallu datrys y mater yn ôl eich bodlonrwydd, gallwch godi'r mater gyda'n Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cwsmeriaid drwy ysgrifennu at:

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cwsmeriaid
Blwch Post 7506
Perth
PH1 3QR

Rydym yn anelu at gysylltu â chi o fewn 48 awr o dderbyn eich llythyr er mwyn datrys eich problem. Yna, rydym yn anelu at ddatrys y materion i gyd wrth law o fewn 10 diwrnod gwaith o'r dyddiad y mae'n Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cwsmeriaid yn derbyn eich cwyn.

Os nad ydych yn fodlon â'r ymateb rydych yn derbyn gennym, ac yn dymuno mynd ymhellach gyda'r mater, gallwch ffonio Ofwat ar 0121 644 7500 neu ysgrifennu atynt:

The Office of Water Services
Centre City Tower

7 Hill Street

Birmingham

B5 4UA

Yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (a gyfeirir ato fel Ofwat) yw corff rheoleiddio economaidd y diwydiant dŵr a charthffosaeth yn Lloegr a Chymru. Mae gan Ofwat ddyletswydd i ymchwilio cwynion am y ffordd yr ymgymerasom â gosod pibellau ar dir preifat a, lle bo'n briodol, talu iawndal o hyd at £5,000. Ni allent ymchwilio anghydfod ynglŷn â swm yr iawndal, ond mae Ofwat wedi cyhoeddi nodyn gwybodaeth ynglŷn â delio gyda'r cwynion hyn, sydd ar gael ar gais. Dylid cyflwyno cwynion i Ofwat fel arfer o fewn 12 mis i'r digwyddiad mewn cwestiwn.

4. Gwybodaeth arall

30. Cysylltu â ni

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein gwaith, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda'ch enw cyswllt, sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith. Fel arfer, bydd ef neu hi ar gael o fewn oriau gwaith. Os nad yw'ch cyswllt ar gael, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am agweddau eraill o'n gwasanaeth, gallwch gysylltu â ni yn y ffyrdd canlynol:

Ffôn

Ffoniwch ni os gwelwch yn dda ar 0800 980 1391. Rydym ar agor o 8yb i 8yh o Ddydd Llun i Ddydd Gwener ac 8yb i 2yh ar Ddydd Sadwrn.

Os ydych yn fyddar neu yn Drwm eich Clyw gallwch ddefnyddio ffôn testun ar y rhif canlynol: 0800 6220 839.

Post

Mae'n well i chi gysylltu â ni drwy ffonio am ei fod yn gyflymach, yn fwy uniongyrchol ac yn haws i ni ateb eich cwestiynau yn syth. Fodd bynnag, os ydych yn dymuno ysgrifennu, ein cyfeiriad yw:

SWALEC

Blwch Post 360

Portsmouth

PO6 2YJ

Ebost

Gallwch ebostio ein tîm gwasanaethau cwsmeriaid ar customerservice@swalec.co.uk

Fel arall, gallwch gysylltu â ni trwy'r wefan ar www.swalec.co.uk

31. Taflenni eraill rydym yn eu cynhyrchu

Rydym yn cynhyrchu amrwyiaeth o daflenni defnyddiol am ein gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff. Mae'r rhain yn cynnwys:

Cod Ymarfer i Gwsmeriaid
Cod Ymarfer ar Ollyngiadau
Cod Ymarfer Adennill Dyledion
Gwybodaeth ar ein costau a safonau gwasanaeth

Mae'r taflenni hyn ar gael ar ein gwefan ar www.swalec.co.uk neu drwy ffonio ein tîm gwasanaethau cwsmeriaid ar 0800 980 1391.

Ymwrthodiad: Cyfieithiad Cymraeg o God Rheoliadol Saesneg yw hwn. Mewn achos anghydfod, nodwch os gwelwch yn dda ein bod yn rhwym i fersiwn gwreiddiol y ddogfen yn yr iaith y'i hysgrifennwyd yn wreiddiol.
Disclaimer: This is a Welsh translation of an English language Regulatory Code. In case of any dispute, please note that we are bound to the original version of the document in the language it was initially written.